

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Emma Sullivan
(Rhif Ffôn: 01443 864420 Ebst: sullie@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'i wneud ar gael i weld yn fyw ac ar ffurf archif drwy wefan y Cyngor. Caiff y cyfarfod cyfan ei ffilmio, ac eithrio ar gyfer trafodaethau sy'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu sydd wedi'u heithrio. Bydd y gweddarllediad ar gael am 18 mis o ddyddiad y cyfarfod ar www.caerffili.gov.uk

Mae'n bosib y gall manau eistedd cyhoeddus gael eu ffilmio a thrwy fynd i mewn i'r Siambr rydych yn rhoi'ch caniatâd i gael eich ffilmio ac ar gyfer y defnydd posibl o'r delweddau a recordiadau sain hynny at ddibenion gweddarlledu.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro Dros Droie bost at willigel@caerffili.gov.uk neu dros y ffôn ar rif 01443 863393

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod y **Cyngor** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2018** am **5.00 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

AGENDA

Tudalennau

A greener place Man gwyrddach

Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat



- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.
- 2 Cyhoeddiadau'r Maer.
- 3 Cyflwyno Gwobrau.
- 4 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- | | | |
|---|---|---------|
| 5 | Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2017. | 1 - 12 |
| 6 | Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2017. | 13 - 16 |

I dderbyn a nodi'r adroddiad canlynol o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2017, a ystyriwyd fel eitem frys nad oedd yn destun galw i mewn: -

- | | | |
|---|--|---------|
| 7 | Cynnig ar gyfer Parcio Nadolig am ddim i Dref Caerffili. | 17 - 20 |
|---|--|---------|

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau canlynol:-

- | | | |
|----|--|---------|
| 8 | Siarter CLILC ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. | 21 - 44 |
| 9 | Gweithdrefn Ymgynghori Cynllunio ar gyfer Ceisiadau sy'n Ymwneud â Mastiau Telathrebu. | 45 - 52 |
| 10 | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2018/19. | 53 - 56 |
| 11 | I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10 (2). | 57 - 58 |

Cylchrediad:

Pob Aelod a Swyddog Priodol



CYNGOR

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 21AIN TACHWEDD 2017 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J.Bevan - Maer
Y Cynghorydd M.Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Simmonds, S. Skivens, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Dros Dro), R.M. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Dinas Caerdydd) ac R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-GAMERA A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy godi dwylo.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pam nad yw system bleidleisio electronig y Siambr yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod Aelodau wedi treialu'r system yn flaenorol mewn sawl cyfarfod o'r Cyngor ond wedi profi rhai anawsterau wrth ei defnyddio. Esboniodd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i fod i ystyried defnyddio'r system gyda'r bwriad o'i hailgyflwyno yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol agos.

2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr K. Dawson, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, N. George, V. James, G. Johnston, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Scriven, G. Simmonds a Mrs E. Stenner.

3. CROESO

Rhoddodd yr aelodau groeso cynnes i ddisgyblion o Senedd Ysgol Gynradd y Bryn, a oedd yn arsylwi rhan o gyfarfod y Cyngor yn ystod eu hymweliad â Thŷ Penallta i ddysgu am ddemocratiaeth gan eu Cynghorwyr lleol.

4. PROFEDIGAETH

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth ddiweddar Aelod y Cynulliad Carl Sargeant. Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn tawelwch fel arwydd o barch ac ymestyn eu cydymdeimlad â'r teulu mewn profedigaeth.

5. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi'u cynnal ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys ailagor Eglwys Dewi Sant yn Nhredegar Newydd, ynghyd â digwyddiad elusen CLIC Sargent flynyddol yng Nghlwb Bowlio Islwyn a Chyngerdd Llysgennad y Swistir yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.

6. ETHOL PENCAMPWR IEUENCTID CAERFFILI

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at yr etholiad diweddar am swydd Pencampwr Ieuentid Caerffili, a gynhaliwyd ar draws nifer o ysgolion uwchradd a grwpiau ieuentid yn y fwrdeistref sirol. Roedd y Cynghorydd Donna Cushing a'r Cynghorydd Mark Evans yn sefyll ar gyfer yr etholiad i gynrychioli barn pobl ifanc yn yr ardal, a chynghorwyd yr Aelodau, yn dilyn cystadleuaeth gref rhwng y ddau ymgeisydd, etholwyd y Cynghorydd Mark Evans yn Bencampwr Ieuentid ddydd Gwener 17 Tachwedd 2017.

Talodd y Cynghorydd Evans deyrnged i'w gyd-ymgeisydd a mynegodd ei ddiolchgarwch i'r holl bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Yn ei thro, llongyfarchodd y Cynghorydd Cushing y Pencampwr Ieuentid newydd ar ei benodiad a chydabu'r ddau Aelod y broses ymgyrchu ddwys drwy gydol tair wythnos y cyfnod cyn-etholiad.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Cynghorydd Evans am ei gyflawniad a'r Cynghorydd Cushing am ei hymdrechion, a chydabu hefyd y cyfraniad a wnaed gan y Pencampwr Ieuentid blaenorol (Mr Mike Prew) yn ystod ei amser yn y swydd.

CYFLWYNO GWOBRAU

7. Gwobr Efydd - Cynllun Cydnabod Cyflogwr Amddiffyn

Hysbyswyd Aelodau bod y Cyngor wedi ennill y Wobr Efydd yn ddiweddar fel rhan o'r Cynllun Cydnabod Cyflogwr Amddiffyn, sy'n cydnabod cyflogwyr y DU am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad tuag at gymunedau Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog. Rhoddir y Wobr Efydd i'r cyflogwyr hynny sy'n ceisio hyrwyddo sefyllfa sy'n gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog, ac sy'n agored i gyflogi milwyr wrth gefn a chefnogi eu hymrwymadau hyfforddi a byddino. Caerffili oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ddarparu sesiynau nofio am ddim i aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y Lluoedd Arfog, ac mae'r Cyngor hefyd wedi ymuno ag ymgyrch 'Count Me in' y Lleng Brydeinig Frenhinol ac mae'n cefnogi dathliadau Gorymdeithiau Canol Tref ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Daeth y Cynghorydd Alan Higgs (Pencampwr y Lluoedd Arfog y Cyngor) a Mrs Audrey

Nealon (sy'n cynrychioli'r Cynllun Cydnabod Cyflogwr Amddiffyn) ymlaen i gyflwyno'r wob'r i'r Maer.

8. Cydnabod Pencampwr y Lluoedd Arfog Cyngor Caerffili - Y Cynghorydd Alan Higgs

Hysbyswyd yr aelodau y bydd y Cynghorydd Alan Higgs yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Pencampwr y Lluoedd Arfog y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn a thalwyd teyrnged i'w ymroddiad a'i frwdfrydedd wrth gyflawni'r rôl hon dros y 5 mlynedd diwethaf. Eglurwyd bod y Cynghorydd Higgs a'r Uned Polisi Corfforaethol wedi gweithio'n galed i sefydlu Fforwm y Lluoedd Arfog y Cyngor, ac mae ei ymrwymiad wedi helpu i alluogi'r cyhoedd i gydnabod a deall yn well y materion sy'n effeithio ar gymunedau'r lluoedd arfog. Nododd yr Aelodau nifer o lwyddiannau'r Cynghorydd Higgs yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys dod o hyd i gartref parhaol ar gyfer plac coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf Pontlotyn, gan alluogi Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru i gael ei gynnal yng Nghaerffili dros y 2 flynedd ddiwethaf a, gyda chymorth yr Arweinydd, galluogi Fforwm y Lluoedd Arfog i fynychu digwyddiadau fel Diwrnod y Lluoedd Arfog a Phenwythnos y Caws Mawr.

Daeth y Cynghorydd Higgs yn ei flaen er mwyn cael ei longyfarch gan yr Aelodau am ei lwyddiannau. Ymunodd ef â'r Capten Tom Doe, y Capten Huw Williams, a'r Swyddog Gwarant Alistair 'Kiw' Bache o gatrawd cysylltiedig y Cyngor, Ysbyty Maes 203 (Cymreig), a gyflwynodd y tîs coffaol i'r Cynghorydd Higgs i gydnabod ei waith a'i ymroddiad diflino fel Pencampwr y Lluoedd Arfog.

9. CEISIADAU

Derbyniodd y Maer y ceisiadau canlynol a gyflwynwyd gan yr Aelodau ar ran trigolion lleol a dywedodd y byddent yn cael eu cyfeirio i'r gyfarwyddiaeth briodol i gael sylw:

- (i) Dymchwel Fflatiau yn Heol yr Afon, Pontlotyn - Cyng Mrs G.D. Oliver;
- (ii) Gofyn am werthusiad llawn a diwygiad o'r cynllun o ran Heol Pentywn - Y Cyng. K. Etheridge;
- (iii) Diogelwch ar y Priffyrdd - Heol Sunnybank - Y Cyng K. Etheridge;
- (iv) Palmant wrth gyffordd Heol Woodbine a Chlôs Woodbine - Y Cyng K. Etheridge.

10. DATGANIADAU O DDIDORDEB

Gofynnwyd am eglurhad oddi wrth y Cynghorwyr DT Hardacre a D. Cushing ynghylch a oedd yn ofynnol iddynt ddatgan diddordeb yn Eitem 7 ar yr Agenda (Hysbysiad o Gynnig - Ymrwymiad i Weithio mewn Partneriaeth â Menter Dementia Gyfeillgar), gan fod ganddynt aelodau o'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro, oherwydd natur yr adroddiad, nad oedd yn ofynnol i Aelodau ddatgan diddordeb rhagfarnllyd a gadael y cyfarfod ar y sail honno, ond y gellid cofnodi'r datganiadau fel diddordeb personol.

Datganodd y Cynghorydd C. Andrews ddiddordeb yn Eitem 8 ar yr Agenda (Hysbysiad o Gynnig - Datganiad Cyngor Cyswllt Cymru ar Dâl yn Llywodraethau Lleol yng Nghymru) ac yn ystod y cyfarfod, datganodd y Cynghorwyr C. Bezzina a P. Marsden hefyd ddiddordeb yn yr eitem hon. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at Eitem 10 ar yr Agenda (Ymchwiliad Mewnol o Uwch Swyddog - Darpariaeth Ariannol Ychwanegol) ac eglurodd, gan fod yr adroddiad yn ceisio i gael cymeradwyaeth am ddarpariaeth ariannol ychwanegol ar gyfer costau cyfreithiol (ac nid oedd yn mynd i'r afael â'r ymchwiliad ei hun) nid oedd yn ofynnol i Aelodau na Swyddogion ddatgan diddordeb rhagfarnllyd a gadael y cyfarfod ar y sail honno. Fodd bynnag, mater i Aelodau unigol oedd a oeddent yn dymuno datgan diddordeb personol a/neu ragfarnllyd.

Datganodd y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, C. Gordon, J. Simmonds a J. Taylor ddi-ddordeb yn Eitem 10 ar yr Agenda (Ymchwiliad Mewnol o Uwch Swyddog - Darpariaeth Ariannol Ychwanegol). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

Nodwyd, o ran Eitem Agenda Rhif 11 (Trefniadau Contract Prif Weithredwr Dros Dro a Pharhad Trefniadau Rheolaeth Fewnol), byddai'n ofynnol i Chris Burns a Steve Harris ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod, ac ar gyfer Eitem Agenda Rhif 12 (Penodi Dirprwy Swyddog Monitro), byddai'n ofynnol i Richard Harris a David Marr ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

11. CYNGOR – 10FED HYDREF 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor a gynhaliwyd ar 10fed Hydref 2017 (rhifau cofnod. 1-17).

12. CYNGOR ARBENNIG - 31AIN HYDREF 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 31ain Hydref 2017 (rhifau cofnod. 1-7).

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

13. HYSBYSIAD O GYNNIG - YMRWYMIAD I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA MENTERAU DEMENTIA GYFEILLGAR

Datganodd y Cynghorwyr D. Cushing a D.T. Hardacre ddi-ddordeb personol, gan fod ganddynt aelodau o'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, ac arhosant yn y Siambr wrth ystyried yr eitem.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu'r Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd C. Cuss a'i gefnogi gan y Cynghorwyr D. Poole, Mrs B. Jones a Mrs E. Stenner, mewn perthynas â materion o fentrau dementia gyfeillgar. Yn unol â Rheol 11 (3) y Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu:-

“Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei ymrwymiad i ddod yn Gyngor Dementia Gyfeillgar drwy weithio mewn partneriaeth â Ffrindiau Dementia i wella bywydau pobl yr effeithir arnynt gan dementia. Bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau Dementia Gyfeillgar sy'n rhoi grym i bobl yr effeithir arnynt gan dementia i fod â dyheadau uchel a theimlo'n hyderus, gan wybod y gallant gyfrannu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ystyrlon iddynt. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, y sector preifat a gwirfoddol, i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r hyfforddiant sydd ar gael.”

Wrth gefnogi'r ymrwymiad, dylai'r Aelodau benodi Pencampwr Dementia Gyfeillgar ar gyfer bwrdeistref Caerffili ac annog pob Aelod o'r Cyngor i ymgymryd â Hyfforddiant Ffrindiau Dementia”.

Ystyriodd yr Aelodau y rhesymau dros y Cynnig, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod i gefnogi'r cynnig, ac yn dilyn trafodaeth ddyladwy, fe'i symudwyd ac eiliwyd bod ei gynnwys yn

cael ei gefnogi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

Cytunwyd ac eiliwyd hefyd y dylid penodi'r Cynghorydd C. Andrews fel Pencampwr Dementia Gyfeillgar ar gyfer bwrdeistref Caerffili. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad: -

- (i) cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig a'i gais i'r Cyngor ddod yn Gyngor Dementia Gyfeillgar;
- (ii) Penodi'r Cynghorydd C. Andrews fel Pencampwr Dementia Gyfeillgar ar gyfer bwrdeistref Caerffili;
- (iii) anogir pob Aelod i ymgymryd â hyfforddiant Ffrindiau Dementia.

Diolchodd y Cynghorydd C. Andrews i'r Aelodau am eu cymeradwyaeth a mynegodd ei hymrwymiad tuag at gyflawni rôl Pencampwr Dementia Gyfeillgar.

14. HYSBYSIAD O GYNNIG - DATGANIAD CYNGOR CYSWLLT CYMRU AR GYFLOG MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

Datganodd y Cynghorydd C. Andrews ddiddordeb personol, gan ei bod yn gweithio i'r sector cyhoeddus ar gyfer awdurdod lleol cyfagos a bod ganddi aelod o'r teulu sy'n gweithio i Gyngor Caerffili, ac arhosodd yn y Siambr wrth ystyried yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd C. Bezzina ddiddordeb personol, gan ei bod yn gweithio i'r undeb llafur, ac arhosodd yn y Siambr wrth ystyried yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd P. Marsden ddiddordeb personol, gan ei bod yn swyddog lleyg ar gyfer undeb llafur, ac arhosodd yn y Siambr wrth ystyried yr eitem.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd D.V. Poole a'i gefnogi gan y Cynghorwyr C. Gordon, Mrs B. Jones, S. Morgan a L. Phipps, mewn perthynas â datganiad Cyngor Cyswllt Cymru ar gyflog mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Yn unol â Rheol 11 (3) y Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu:-

"Cefnogir y penderfyniadau canlynol a gytunwyd gan Gyngor Cyswllt Cymru a Bwrdd Llywodraeth Leol Cymru ac felly,

- (i) gofynnir i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol lloïo'n effeithiol Llywodraeth Ganolog i ariannu gweithredu Adolygiad Graddfa Gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a achoswyd gan effaith uniongyrchol y Cyflog Byw Cenedlaethol.
- (ii) anfonir llythyr at Lywodraethau Canolog a Chymru i ddarparu llywodraeth leol yng Nghymru gyda'r cyllid i sicrhau bod cynnydd cyflog teg, fforddiadwy a chynaliadwy yn cael ei wneud i weithlu llywodraethau lleol yng Nghymru.
- (iii) gofynnir i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithio gyda'r undebau llafur i geisio cael cytundeb ariannu teg ar gyfer llywodraeth leol."

Ystyriodd yr Aelodau y rhesymau dros y Cynnig, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod i gefnogi'r cynnig, ac yn dilyn trafodaeth ddyladwy, fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod ei gynnwys yn cael ei gefnogi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad.

15. HYSBYSIAD O GYNNIG - CYFLENWAD TIR 5 MLYNEDD

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar y Rhybudd o Gynnig canlynol a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd C.P. Mann a'i gefnogi gan y Cynghorwyr A. Angel, J. Taylor, J.E. Fussell, L. Binding, L.G. Whittle, P.J. Bevan, Mrs T. Parry ac R. Gough, mewn perthynas â mater cyflenwad tir 5 mlynedd. Yn unol â Rheol 11 (3) y Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu:-

"Bod y cyngor hwn yn annog Ysgrifennydd Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, i atal yr angen am gyflenwad tir 5 mlynedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili am y tro".

Nodwyd, yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 10fed Hydref 2017, fod y Cyngor wedi ysgrifennu at Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, i annog Llywodraeth Cymru i osod moratoriwm ar TAN 1 (h.y. sut mae'r cyflenwad tir tai 5 mlynedd yn cael ei gyfrifo). Cyfeiriodd yr Aelodau at y pwysau a roddwyd ar y Cyngor yn deillio o ddiffyg cyflenwad tir 5 mlynedd, a arweiniodd at nifer o apeliadau cynllunio llwyddiannus gan ddatblygwyr tai yn ystod y misoedd diwethaf, ac anogodd y Cyngor i gynnal y momentwm wrth lobïo Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gefnogi. Cynigiwyd gwelliant gan fod y Cyngor yn gofyn am gyfarfod ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion TAN 1, a mynychir gan ddirprwyaeth o Aelodau yn cynrychioli'r wardiau hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan y materion hyn. Cytunodd symudwr y cynnig y gellid ymgorffori hyn yn ei gynnig.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y llythyr mewn perthynas â TAN 1 ond wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru yn ystod y deng niwrnod diwethaf ac y gallai fod yn gynamserol i ddilyn y mater o ystyried atal busnes cyfarfodydd llawn y Cynulliad yn ddiweddar. Awgrymwyd y gallai Aelodau ystyried a ddylid gofyn am gyfarfod â swyddogion y Cynulliad ynghylch y materion sy'n ymwneud â TAN 1 os na dderbynir ymateb gan Lywodraeth Cymru erbyn canol mis Rhagfyr. Cadarnhaodd symudwr y gwelliant ei fod yn fodlon gyda'r dull gweithredu hwn a awgrymwyd a diddymodd ei welliant. Yn dilyn trafodaeth ddyladwy, cytunodd symudwr y cynnig y gellid ymgorffori'r camau gweithredu a awgrymwyd yn ei gynnig.

Hysbyswyd yr Aelodau y cynhelir seminar cyn y Pwyllgor Cynllunio nesaf ar 6ed Rhagfyr 2017 a fydd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gyfrifiadau sy'n ymwneud â'r cyflenwad tir 5 mlynedd, a chafodd yr holl Aelodau eu hannog i fynychu. Dywedodd Aelod hefyd ei fod wedi ysgrifennu yn ddiweddar at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ofyn iddi archwilio'r enillion tymor byr yn erbyn buddiannau hir y safleoedd hynny a wrthodwyd ar gyfer datblygu cynllunio, ond nad oedd wedi derbyn ateb eto.

Ar ôl cytuno ac eilio'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig, drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol i gefnogi ei gynnwys a'r camau gweithredu a awgrymwyd.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad: -

- (i) cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig;
- (ii) cysylltir y Cyngor â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyfarfod ffurfiol mewn perthynas â materion TAN 1 os na dderbynnir ymateb i'r llythyr a anfonwyd yn flaenorol erbyn canol mis Rhagfyr.

16. YMCHWILIAD MEWNOL O UWCH SWYDDOG - DARPARIAETH ARIANNOL YCHWANEGOL

Datganodd y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, C. Gordon, J. Simmonds a J. Taylor ddiddordeb personol a rhagfarnol fel Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a gadawsant y cyfarfod wrth i'r eitem gael ei hystyried .

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr Aelodau na ddylid cynnal unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r ymchwiliad mewnol cyfredol a gyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth am ddarpariaethau ariannol ychwanegol mewn perthynas a'r ymchwiliad mewnol parhaus o Uwch Swyddog. Atgoffwyd yr aelodau o'r trefniadau dros dro presennol sydd mewn lle o fewn yr Awdurdod a sy'n deillio o'r ymchwiliad mewnol o dri Uwch Swyddog a'r costau cysylltiedig ychwanegol, a ariannwyd o ddarpariaethau a sefydlwyd gan ddefnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor.

Cymeradwywyd cytundebau setlo mewn perthynas â dau o'r Uwch Swyddogion mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 31ain Hydref 2017, ac mae'r setliadau hyn bellach yn dod â'r mater i ben ar gyfer y ddau unigolyn hyn. Fodd bynnag, bydd yn awr yn angenrheidiol ymgysylltu â Pherson Annibynnol Dynodedig mewn perthynas â'r honiadau sy'n gofyn am ymchwiliad ffurfiol mewn perthynas â'r Uwch Swyddog sydd ar ôl.

Yn seiliedig ar amcangyfrifon ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 31ain Hydref 2017, rhagwelir y bydd costau cynnal yr ymchwiliad ffurfiol i'r un Uwch Swyddog yn £60mil ar gyfer y Person Annibynnol Dynodedig a £187mil ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd angen hefyd sefydlu darpariaeth ariannol i gwrdd â chostau cyflog parhaus yr Uwch Swyddog sydd ar ôl tra bydd yr ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal. Ar hyn o bryd, argymhellir y dylai'r ddarpariaeth hon gynnwys y cyfnod o chwe mis o 1 Ionawr 2018 i 30 Mehefin 2018, sef cyfanswm o £93mil. Mae costau cyflog yr Uwch Swyddog ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr 2017 eisoes wedi'u cynnwys gan ddarpariaethau a gymeradwywyd yn flaenorol.

Mae'r costau ychwanegol hyn yn gyfanswm o £340mil a byddant yn cael eu diwallu'n rhannol gan y £190mil sydd ar ôl o ddarpariaethau a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor. Felly, gofynnwyd am gymeradwyaeth am ddarpariaeth ariannol arall o £150mil i'w ariannu o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy godi dwylo (ac wrth nodi bod 13 yn erbyn a 4 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, ac i sicrhau bod digon o arian wedi'i neilltuo i gwrdd â chostau posibl y broses ymchwilio barhaus, pe na bai materion yn dod i ben erbyn 30ain Mehefin 2018, y bydd darpariaeth ariannol arall o £150mil yn cael ei ariannu o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i dalu'r costau hyn.

17. TREFNIADAU CYTUNDEB Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO AC YMGYNGHORI AR DREFNIADAU RHEOLI MEWNOL

Datganodd Chris Burns (Prif Weithredwr Dros Dro) a Steve Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) ddiddordeb (gan yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr adroddiad) a gadawsant y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r gofyniad yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gael Pennaeth Gwasanaeth Taledig, a phenodiad Chris Burns i'r swydd Prif Weithredwr Dros Dro ar 22ain Gorffennaf 2014 ar gcontract tymor penodol am gyfnod o 12 mis. Mae'r cytundeb dros dro wedi cael ei ymestyn sawl gwaith ac mae'n i fod i ddod i ben ar 31ain Rhagfyr 2017. Rhagwelir y bydd y cyfnod gyda'r Person Annibynnol Dynodedig o'r ymchwiliad mewnol a awgrymwyd uchod yn dod i benderfyniad cyflymach nawr mai dim ond un o'r Uwch Swyddogion sy'n ymwneud ag ef. Yn y cyfamser, mae angen ystyried cytundeb y Prif Weithredwr Dros Dro cyfredol ac a ddylid ei ymestyn ai peidio y tu hwnt i 31ain Rhagfyr 2017. Gofynnwyd i'r Cyngor felly ddirprwyo'r penderfyniad i ymestyn cytundeb y Prif Weithredwr Dros Dro i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad â'r ddau Ddirprwy Arweinydd er mwyn darparu parhad parhaus i'r sefydliad.

Atgoffwyd yr aelodau hefyd o'r trefniadau dros dro sydd mewn lle mewn perthynas â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro, swyddi parhaol sydd bellach yn wag yn sgil cyfarfod y Cyngor ar 31ain Hydref 2017. Gofynnwyd i'r Cyngor felly ddirprwyo'r penderfyniad i ymestyn y trefniadau cytundeb dros dro ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad â'r ddau Dirprwy Arweinydd, a hefyd y penderfyniad o ran y recriwtio parhaol i'r swyddi hyn yn y tymor hir.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynglŷn ag ystyr yr argymhellion, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio tymor hir ar gyfer y swyddi parhaol sy'n wag, a mynegodd yr angen i benodi ar gyfer y swyddi hyn ar sail barhaol drwy'r Cyngor llawn a thrwy'r Pwyllgor Penodiadau. Esboniodd y swyddogion fod yr ail argymhelliad yn yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddirprwyo'r estyniad o drefniadau cytundeb dros dro ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro, a byddai penodi i'r swyddi hyn yn ddarostyngedig i'r prosesau recriwtio cytunedig. Cadarnhawyd y byddai adroddiad pellach ar y swyddi hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y dyfodol a hefyd y byddai Cyngor arbennig yn cael ei drefnu ym mis Rhagfyr i ystyried adroddiad ar y swydd Prif Weithredwr Dros Dro.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy godi dwylo (ac wrth nodi bod 2 ymataliad), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif yn bresennol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad:

- (i) y penderfyniad i ymestyn cytundeb y Prif Weithredwr Dros Dro i gael ei ddirprwyo i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad â'r ddau Dirprwy Arweinydd;
- (ii) y penderfyniad i ymestyn y trefniadau cytundeb dros dro ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro, ynghyd â'r penderfyniad o ran recriwtio parhaol tymor hir i'r swyddi hyn, i gael eu dirprwyo i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad â'r ddau Dirprwy Arweinydd.

Ar yr adeg hon, dychwelodd Chris Burns a Steve Harris i'r cyfarfod.

18. PENODI'R DIRPRWY SWYDDOG MONITRO

Datganodd Richard Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol) a David Marr (Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Dinas Caerdydd) ddiddordeb (gan yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr adroddiad) a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i ddynodi Dirprwy Swyddog Monitro dros dro i'r Awdurdod. Atgoffwyd yr Aelodau o'r gofyniad yn ôl y gyfraith i'r Awdurdod gael Swyddog Monitro mewn lle a bod ei swyddogaeth yn cael ei chyflawni gan Swyddog sy'n gallu dirprwyo ar ei ch/gyfer yn ei h/absenoldeb. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod Ddirprwy Swyddog Monitro, ac oherwydd absenoldeb presennol Swyddog Monitro Dros Dro'r cyngor, mae angen gwneud trefniadau amgen i sicrhau bod y swyddogaeth hon yn cael ei chwmpasu'n ddigonol. Nodwyd, yn y rhan fwyaf o achosion, bod cynghorau'n tueddu i benodi eu Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu uwch swyddog cyfreithiol arall fel Swyddog Monitro, er nad oes gofyn i'r Swyddog Monitro fod yn swyddog cyfreithiol.

Felly, cynigiodd yr adroddiad benodi Richard Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol) fel Dirprwy Swyddog Monitro mewn modd dros dro, a'i fod yn dirprwyo yn absenoldeb y Swyddog Monitro Dros Dro hyd nes y bydd yr Awdurdod yn adolygu'r strwythur yn y dyfodol o'r gwasanaeth cyfreithiol ac yn gallu sefydlu trefniadau parhaol a ddylai gynnwys darpariaeth i ddirprwy

weithredu yn absenoldeb y Swyddog Monitro. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd, lle bydd eu Dirprwy Swyddog Monitro (Mr David Marr) ar gael i roi cyngor i Mr Harris os bydd angen ac i Swyddogion ac Aelodau eraill os bydd angen.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd pryderon ynghylch y costau posibl y gellid eu codi drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth. Derbyniwyd ymholiadau oddi wrth Aelodau ynghylch addasrwydd y penodiad arfaethedig, a fyddai'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn parhau i ymgymryd â'i swydd barhaol yn ogystal â'r swydd Dirprwy Swyddog Monitro, ac a allai fod gwrthdaro diddordebau posibl rhwng y ddwy rôl. Mynegodd Aelod bryderon ynghylch diplomyddiaeth yr adroddiad mewn perthynas â staff y Gwasanaethau Cyfreithiol, gofynnodd am eglurhad ynghylch amserlenni ac awdurdodaeth y cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd, a holodd am hyd bwriedig y penodiad dros dro arfaethedig. Gofynnodd yr Aelod hefyd a ystyriwyd cynnig y swydd fel cyfle secondiad i awdurdodau lleol eraill a holodd am y rhesymeg dros ddewis y darparwr cytundeb lefel gwasanaeth.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro brys y sefyllfa i'r Aelodau a'u hatgoffa y dylai'r Cyngor fod â Swyddog Monitro mewn lle er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Roedd hefyd yn cydnabod yr angen am ddirprwy parhaol ac eglurodd y rhagwelir mai dim ond am gyfnod byr iawn y bydd y penodiad dros dro hwn. Cadarnhaodd y byddai Mr Harris yn cymryd y rôl yn ychwanegol at ei ddyletswyddau Archwilio cyfredol, ond mae rôl y Dirprwy Swyddog Monitro yn cynnwys set benodol o ddyletswyddau statudol ac nid yw'n swydd amser llawn ar wahân. Eglurwyd bod ystyriaeth wedi'i rhoi tuag at gynnig y rôl fel cyfle secondiad a chysylltwyd â dau awdurdod ynglŷn â'r mater hwn, ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen cynnig cyfle secondiad oherwydd natur y rôl.

Hysbyswyd yr aelodau nad yw'n bosibl diffinio pa mor gyfyngedig y bydd y cytundeb lefel gwasanaeth yn ei natur, er na ragwelir y bydd cryn dipyn o oriau'n cael eu cronni. Pe bai'r sefyllfa bresennol yn parhau i'r Flwyddyn Newydd, yna gofynnir i'r Cyngor ystyried adroddiad pellach ar y mater. Eglurwyd nad yw manylion y cytundeb wedi eu cadarnhau eto a dim ond y gyfradd fesul awr y cytunwyd arni hyd yma.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr Dros Dro natur dros dro'r sefyllfa a phwysigrwydd sicrhau bod pob mesur diogelu statudol yn ei le i ddiogelu'r Awdurdod. Cadarnhawyd na fyddai gwrthdaro diddordebau rhwng rolau'r Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Dirprwy Swyddog Monitro gan fod y ddwy rôl yn cyflenwi ei gilydd a bod ganddynt swyddogaethau tebyg. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro hefyd at brofiad sylweddol Mr Harris fel Swyddog Archwilio a'r lefel uchel o atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r rôl Monitro, ac eglurodd fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i benodi aelod o staff o'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ymgymryd â'r rôl. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori â staff o fewn yr adran, penderfynwyd y byddai wedi bod yn annheg disgwyl i unrhyw aelod penodol o staff ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad Aelod, cadarnhawyd y bydd cost y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei thalu o gyllideb y Gwasanaethau Cyfreithiol. Pe bai'r sefyllfa'n parhau i'r Flwyddyn Newydd, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro hefyd werth y mesurau hyn mewn perthynas â darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol i'r Cyngor i sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.

Mynegodd yr Aelodau eu dymuniadau gorau i Mrs Gail Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro Dros Dro) am adferiad cyflym.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad:

- (i) Enwebir Mr Richard Harris, Rheolwr Archwilio Mewnol, fel Dirprwy Swyddog Monitro'r Cyngor am gyfnod dros dro, a'i fod yn dirprwyo pe bai'r Swyddog Monitro Dros Dro presennol y cyngor yn absennol ar unrhyw adeg;
- (ii) Mae'r Cyngor yn ymrwmo i gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd i ddarparu cefnogaeth i Mr Harris, ac i'r Awdurdod yn gyffredinol yn ôl yr angen, i gefnogi'r trefniant hwn.

19. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(2)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau dan Reol Gweithdrefn 10 (2).

20. GWASANAETH CAROLAU NADOLIG Y MAER

Wrth gloi'r cyfarfod, gwahoddodd y Maer yr Aelodau i'w Wasanaeth Carolau Nadolig, a gynhelir ddydd Mercher 29ain Tachwedd 2017 yn Ysgol Gyfun Rhymni.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.25 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2018, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

MAER

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



CYFARFOD CYNGOR ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD
MYNACH AR 5ED RHAGFYR 2017 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J.Bevan - Maer
Y Cynghorydd M.Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Ms E. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Hussey, M. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams a W. Williams.

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Harris (Pennaeth Archwilio Mewnol a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro – Cyngor Dinas Caerdydd) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-GAMERA A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy godi dwylo.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs E. Aldworth, Mrs C. Andrews, A. Angel, P. Bevan, W. David, N. Dix, C. Elsbury, C. Forehead, J. Fussell, A. Higgs, Mrs P. Marsden, Mrs B. Miles, D. Preece, R. Saralis, G. Simmonds, A. Whitcombe, B. Zaplatynski a D. Street (Cyfarwddwr Corfforaethol– Gwasanaethau Cymdeithasol) a Mrs C. Harry (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau).

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Roedd Mr D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol) a Mrs C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn datgan diddordeb yn agenda eitem 3 – Dynodiad o Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro ac nid oeddent yn bresennol yn ystod y cyfarfod.

4. CYHOEDDIAD GAN YR ARWEINYDD

Fe wnaeth yr Arweinydd, y Cynghorydd D.V. Poole, wrth nodi'r cyhoeddiad diweddar y bydd y Prif Weithredwr Dros Dro, Mr Chris Burns yn gadael yr Awdurdod ar ddiwedd Rhagfyr, dalu teyrnged i'r Prif Weithredwr Dros Dro. Nodwyd fod Mr Burns wedi ymuno â'r Awdurdod ym mis Medi 2014, ar benodiad dros dro, yn ystod cyfnod anodd iawn ac wedi "sefydlogi pethau", ac am hyn gwnaeth yr Arweinydd, a'r Cyngor ddiolch iddo'n ddiffuant.

Ategwyd teimladau o ddiolch gan Arweinydd Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol, a diolchodd y Cyngor i'r Prif Weithredwr Dros Dro am ei waith caled, ei gymorth a'i gefnogaeth a dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol.

Diolchodd Mr Burns i'r Arweinwyr am eu sylwadau a phwysleisio ei fod wedi bod yn anrhydedd mawr i gael ei benodi. Gan gydnabod yr amgylchiadau heriol pan gafodd ei benodi, tynnodd Mr Burns sylw at nifer o ganlyniadau cadarnhaol i'r heriau a gyflawnwyd yn ystod ei amser fel Prif Weithredwr Dros Dro, er enghraifft cyflwyno cyllidebau cytbwys, cyflawniadau o fewn y Gyfadran Addysg, gyda 3 ysgol newydd yn cael ei hadeiladu at safon uchel ac ar amser ac o fewn y gyllideb, y gwaith partneriaeth sydd wedi'i sefydlu gyda phrifathrawon uwchradd a'r gwelliannau a wnaed o fewn tablau cynghrair yr ysgol.

ADRODDIAD Y SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

5. DYNODIAD O BENNAETH GWASANAETH CYFLOGEDIG

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad, a oedd yn argymhell penodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig /Prif Weithredwr Dros Dro.

Nodwyd bod Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gofyn bod awdurdod lleol perthnasol yn dynodi swyddog fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. O fewn y Cyngor, mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr. Rhaid i'r penodiad gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

Nodwyd, ers Medi 2014, fod Mr Chris Burns wedi cael ei gyflogi fel Prif Weithredwr Dros Dro, wedi'i gyflogi ar gyfres o gytundebau o ddeuddeg mis. Ar ddiwedd y cytundeb 12 mis diweddaraf ym mis Awst 2017, a ymestynnwyd gan y Cyngor am gyfnod pellach tan 31ain Rhagfyr 2017. Mae'n angenrheidiol i'r Cyngor ddynodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig o'r dyddiad hynny. Mae Mr Burns wedi nodi nad yw'n dymuno ymestyn y cytundeb hwn am gyfnod pellach ac felly mae'n angenrheidiol i'r Cyngor ddynodi person arall i gyflawni'r rôl hon.

Roedd yr adroddiad yn argymhell bod Mrs Christina Harrhy, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, yn cael ei ddynodi'n Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig/ Prif Weithredwr Dros Dro am gyfnod o chwe mis.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar ôl-lenwi swyddi perthnasol o fewn y Swyddfa Weithredol er mwyn sicrhau bod digon o Uwch Swyddogion wedi'u penodi i gwrdd â gofynion llwyth gwaith ac, yn ogystal, sut y byddai'r swyddi hyn yn cael eu hariannu. Esboniodd y Swyddogion, pe bai'r penodiad yn cael ei gytuno, byddai'r Swyddog yn ystyried y strwythur staffio a byddai trefniadau perthnasol yn cael eu gwneud. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Aelodau nodi y byddai ôl-lenwi swyddi yn cael eu diwallu o'r gyllideb sylweddol sydd mewn lle ar gyfer staffio yn yr Adran honno, ac felly ni fyddai unrhyw ofyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

Bu'r Aelodau'n trafod yr argymhellion yn yr adroddiad ac wrth nodi bod Swyddogion yn ymwybodol o fwradau'r Prif Weithredwyr Dros Dro i adael yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn, gofynnodd am eglurhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru (LIC) neu Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLILC) Cymru wedi cael eu hymgyngori ar y penodiad, ac a oeddent wedi gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â Swyddogion i lenwi'r rôl yn y cyfamser. Cadarnhawyd bod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda LIC a nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r penodiad.

Yn dilyn dadl fanwl, cynigwyd ac eiliwyd y dylid cytuno ar yr argymhellion o fewn Adroddiad yr Arweinwyr.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y Penodiad yn cael ei ohirio a bod dull yn cael ei wneud i LIC a CLILC.

Yn ystod y ddadl ddilynol, ac wrth godi pryderon ynghylch y trefniadau Dros Dro cyfredol sydd mewn lle, ac wrth gydnabod brys y penodiad, cynigiodd Aelod y dylid gwneud y penodiad ar sail 3 mis yn y lle cyntaf; gan fod y fath newid yn cael ei gynnig a'i eilio y dylid gwneud y Penodiad ar sail 3 mis.

Wrth gymryd y newid, drwy godi dwylo cafodd hyn ei golli. Drwy godi dwylo, cafodd y newid pellach hefyd ei golli. Yna bu'r Aelodau'n ystyried y cynnig a thrwy godi dwylo (ac wrth nodi bod yna 1 ymataliad) cytunwyd gyda'r mwyafrif yn bresennol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

- (i) bod gofynion y swydd, fel y nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo;
- (ii) Bydd Mrs Christina Harrhy yn cael ei dynodi'n Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig / Prif Weithredwr Dros Dro am gyfnod o chwe mis ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.
- (iii) y penodiad dros dro yn cael ei wneud ar bwynt cyntaf y raddfa gyflog berthnasol a'i osod ar y pwynt hwnnw heb unrhyw gynnydd;
- (iv) Byddai Mrs Christina Harry yn cael ei dynodi fel Swyddog Gofrestru Etholiadau a Chanlyniadau Dros Dro.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.28pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunwyd ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2018 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



COUNCIL – 23RD JANUARY 2018

SUBJECT: FREE CHRISTMAS PARKING PROPOSAL FOR CAERPHILLY TOWN

REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR - COMMUNITIES

- 1.1 The attached report was considered as an urgent item by Cabinet on 15th November 2017.
- 1.2 The Constitution requires that any decision taken as a matter of urgency must be reported to the next available meeting of Council, giving the reasons for its urgency. Therefore the report is presented to Council for Members' information, due to the unique set of circumstances that resulted from the highway improvement works at Pwllypant roundabout.
- 1.3 The recommendations of the report were considered and approved by Cabinet.
- 1.4 Members are asked to note the recommendations of the report and Cabinet decision.

Author: M. Lloyd, Acting Head of Engineering Services

Appendix: Report to Cabinet – 15th November 2017.



CABINET – 15TH NOVEMBER 2017

SUBJECT: FREE CHRISTMAS PARKING PROPOSAL FOR CAERPHILLY TOWN

REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR - COMMUNITIES

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1 To seek Cabinet approval to introduce a 2 hour free parking period in all Caerphilly town pay and display car parks for two weeks in the run up to Christmas 2017.

2. SUMMARY

- 2.1 In order to demonstrate the Council's continuing support for traders in Caerphilly town in light of the impact of the ongoing A468/A469 Pwllpant roundabout highway improvement works and the still challenging economic climate, it is proposed to introduce the 2 hour free parking period in the town's pay and display car parks for two weeks in the run up to Christmas 2017 in an effort to support and increase trade in the town.

3. LINKS TO STRATEGY

- 3.1 The report links to the Council's priority to ensure that communities are safe, green and clean places to live and to improve residents' quality of life.
- 3.2 The recommended course of action contributes to the following Well-being Goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015:
- *A prosperous Wales*
 - *A resilient Wales*
 - *A Wales of cohesive communities*
 - *A globally responsible Wales.*

4. THE REPORT

- 4.1 Construction of the A468/A469 Pwllpant roundabout highway improvement commenced on the 9th October 2017 and is programmed to take 12 months to complete. After the first few days of significant disruption to traffic, the increase in journey times has reduced significantly to generally 10-15 minutes at peak times. However, traders continue to express concern about the reduction in footfall and trade, and in particular the potential impact on the Christmas trade which is one of the busiest times for most traders. The impact of the temporary traffic management is under review and further mitigation measures are being considered.

- 4.2 The Cabinet acknowledges the ongoing pressures facing traders in the Caerphilly County Borough owing to the ongoing challenging economic climate and the potential impact of the highway improvement works on Caerphilly town in particular. Every opportunity must be taken to encourage shoppers and visitors to come into the town, particularly during the Christmas period. In previous years a 2 hour free parking for a two week period in the run-up to Christmas was introduced and was well received as part of the Council's support to increase trade in the borough (last introduced in 2011).
- 4.3 During the Christmas period the car parks are full for the majority of the day and demand for parking is at its highest at this time of year. Free parking up to 2 hours (with no return for 2 hours) in Caerphilly town, whilst diminishing some turnover, will ensure that there is turnover of car parking spaces; that commuter and worker parking is discouraged from the main car parks; and that there is general availability for shoppers and visitors to the town in the car parks most suited for their needs. Any users wishing to stay for longer than 2 hours will be required to pay the normal tariff (i.e. 3 hours and over).
- 4.4 To ensure compliance with the 2 hour free parking with no return for 2 hours a higher level of enforcement will be required at the most heavily used short stay sites. It will be important to ensure adequate signage is provided to avoid confusion with users. To control the free car parking users will still be required to display a ticket otherwise they may be issued with an excess charge notice. The early stages of this period will need to be monitored to determine how motorists react to the changes.
- 4.5 Given the practicalities of implementing this proposal just before the statutory holidays, it is proposed that the free parking will commence in Caerphilly town on Saturday 9 December 2017 until Saturday 23 December 2017.

5. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

- 5.1 As a "one off" short term measure the proposal is not expected to have a long term impact, but does contribute to the Well-being Goals as set out in Links to Strategy above.

6. EQUALITIES IMPLICATIONS

- 6.1 An EIA screening has been completed in accordance with the Council's Strategic Equality Plan and supplementary guidance. No potential for unlawful discrimination and/or low level or minor negative impact has been identified, therefore a full EIA has not been carried out.

7. FINANCIAL IMPLICATIONS

- 7.1 The cost of implementing the proposal borough wide in 2011 was approximately £30,000 but since that time usage of the car parks has remained similar and there has been no increase in the parking tariffs. To implement the free parking proposals in Caerphilly town in 2017 it is estimated to cost the Council around £5-10,000 (covering loss of income, legal and implementation costs). This cost will be met from existing Engineering Services budgets.

8. PERSONNEL IMPLICATIONS

- 8.1 None.

9. CONSULTATIONS

- 9.1 All responses from consultations have been incorporated in the report.

10. RECOMMENDATIONS

- 10.1 Cabinet are asked to approve the implementation of free parking in Caerphilly town for up to 2 hours with no return for 2 hours in the two weeks before Christmas 2017.

11. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS

- 11.1 As described in 4.1 – 4.2.

12. STATUTORY POWER

- 12.1 Road Traffic Regulation Act 1984.

13. URGENCY

- 13.1 This report is urgent on the basis that Caerphilly town businesses have cited that the Pwllpant Roundabout improvement works have had a detrimental impact on their trading figures as a result of reduced footfall and visitor numbers within the town. A significant amount of their annual trade is undertaken in the run up to Christmas.
- 13.2 In accordance with the Council's Constitution the Mayor has agreed that the decision proposed is reasonable and has agreed that the decision should be treated as exempt from Call in.

Author: Clive Campbell - Transportation Engineering Manager
Consultees: Cllr David Poole, Leader of the Council
Cllr Sean Morgan, Deputy Leader and Cabinet Member for Economy, Infrastructure, Sustainability and Wellbeing and Future generations Champion
Cllr John Bevan, Mayor
Chris Burns, Interim Chief Executive
Christina HARRY, Corporate Director - Communities
Steve Harris, Interim Head of Corporate Services
Marcus Lloyd, Acting Head of Engineering Services
Anwen Cullinane, Senior Policy Officer – Equalities & Welsh Language
Mike Eedy, Finance Manager
Shaun Watkins, HR Service Manager
Dean Smith, Principal Engineer (Traffic Management)



COUNCIL – 23RD JANUARY 2018

SUBJECT: WLGA CHARTER FOR MEMBER SUPPORT AND DEVELOPMENT

REPORT BY: ACTING DIRECTOR OF CORPORATE SERVICES AND SECTION 151

- 1.1 The report was considered by the Democratic Services Committee on the 23rd November 2017.
- 1.2 Having considered the report and the Charter requirements as detailed within the submission pro-form in Appendix 1 of the report the Democratic Services Committee unanimously recommended that Council approve the proposal that this Council re-affirms its commitment to the Wales Charter for Member Support and Development.
- 1.3 Members are invited to consider the report and the above recommendation.

Author: E. Sullivan, Democratic Services Officer, Ext 4420.

Appendix: Democratic Services Committee Report – 23rd November 2017



DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE – 23RD NOVEMBER 2017

SUBJECT: WLGA CHARTER FOR MEMBER SUPPORT AND DEVELOPMENT

REPORT BY: ACTING DIRECTOR OF CORPORATE SERVICES AND SECTION 151 OFFICER

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1 To seek the views and endorsement of the Democratic Services Committee on the proposed commitment to renew the Wales Charter for Member Support and Development prior to seeking the approval of Council to reapply for charter status.

2. SUMMARY

- 2.1 The report seeks Member endorsement to continue operating Member support and development activities in accordance with the WLGA's Wales Charter for Member Support and Development. The Charter is a public statement and quality standard benchmark for delivering effective Member support and development

3. LINKS TO STRATEGY

